# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r ue) 2020** |
| **DYDDIAD** | **16 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r ue) 2020**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

<u>Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys</u>

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2238 sy'n pennu manylion y rhwymedigaeth lanio ar gyfer rhai pysgodfeydd gwely'r môr ym Môr y Gogledd ar gyfer y cyfnod 202-2021.

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2239 sy'n pennu manylion y rhwymedigaeth lanio ar gyfer rhai pysgodfeydd gwely'r môr yn nyfroedd y Gogledd-orllewin ar gyfer y cyfnod 202-2021.

- Rheoliad y Cyngor (UE) 2020/123 sy'n gosod ar gyfer 2020 y cyfleoedd pysgota am rai stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod sy'n gymwys o fewn dyfroedd yr Undeb, ac ar gyfer cychod pysgota'r Undeb mewn rhai dyfroedd y tu allan i rai'r Undeb.

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/909 sy'n sefydlu'r rhestr o arolygon a throthwyon ymchwil gorfodol at ddiben rhaglen amlflynyddol yr Undeb ar gyfer casglu a rheoli data yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu.

- Penderfyniad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/910 sy'n sefydlu rhaglen amlflynyddol yr Undeb ar gyfer casglu a rheoli data biolegol, amgylcheddol, technegol a chymdeithasol-economaidd yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu.

Deddfwriaeth Ddomestig (OSau Ymadael â’r UE)

- Rheoliadau’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019;
- Rheoliadau’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019
- Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019;
- Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019;
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â’r UE) 2019, a
- Rheoliadau’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019

Is-ddeddfwriaeth arall

- Rheoliadau Grantiau ar gyfer Pysgota a Diwydiannau Dyframaethu 2015

Deddfwriaeth Ewropeaidd i’w dirymu

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2020/3 sy’n sefydlu cynllun gwaredu ar gyfer cregyn Venus (Venus spp.) yn rhai o ddyfroedd tiriogaethol yr Eidal.

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2201 sy’n ategu Rheoliad (UE) 2019/1241 Senedd Ewrop a’r Cyngor â rheolau manwl ar gyfer gweithredu cyfnodau cau amser real pysgodfeydd corgimychiaid y Gogledd yn y Skagerrak.

Rheoliad y Cyngor (UE) 2019/124 sy’n gosod ar gyfer 2019 y cyfleoedd pysgota am rai stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod sy’n gymwys o fewn dyfroedd yr Undeb, ac ar gyfer cychod pysgota’r Undeb mewn rhai dyfroedd y tu allan i rai’r Undeb.

Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 2018/1283 sy’n gosod y rheolau ar fformat ac amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gasglu data blynyddol yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu.

Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 601/2004 sy’n gosod mesurau rheoli penodol sy’n berthnasol i weithgareddau pysgota yn yr ardal a ddaw o dan y Confensiwn ar warchod adnoddau byw morol yr Antartig.

Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 600/2004 sy’n gosod mesurau technegol penodol sy’n berthnasol i weithgareddau pysgota yn yr ardal a ddaw o dan y Confensiwn ar warchod adnoddau byw morol yr Antartig.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae pysgodfeydd yn bwnc datganoledig ac mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") gymhwysedd deddfwriaethol eang yn y maes mewn perthynas â Chymru.

Mae'r offeryn hwn yn rhoi swyddogaethau gweinyddol a deddfwriaethol i Weinidogion Cymru heb lyffethair. Mae'r offeryn hwn yn rhoi swyddogaeth hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn ogystal, mae'r offeryn hwn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a arferir yn gydamserol â Gweinidogion Cymru.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn yr OS hwn y potensial i sbarduno'r gofynion cydsynio yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru ac y gallent felly fod yn gyfyngiad ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir fel y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol eu harfer, ar ei ben ei hun neu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, yn gyfystyr â swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddiben Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai Bil gan y Senedd yn y dyfodol i ddiddymu neu newid y swyddogaethau hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud newidiadau o ran gallu gweithredu o dan adran 8(1) ac o dan baragraff 21 o Atodlen 7, o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytuniad Ymadael) 2020 i'r offerynnau y cyfeirir atynt uchod, er mwyn mynd i'r afael â diffygion o fewn deddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC), o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau y parheir i reoleiddio gweithgareddau pysgota yn nyfroedd y DU mewn ffordd gynaliadwy ar ôl ymadael â'r UE ond ni wnânt newidiadau ymarferol i effaith y PPC nac i'r ffordd y bydd pysgotwyr yn cynnal eu gweithgareddau.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213379

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU i wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad ag ac ar ran Cymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Ar ôl ystyried y diwygiadau dan sylw yn llawn ac yn ofalus, asesu'r cyfarwyddiadau polisi a dadansoddi'r drafftio o ran y gyfraith, gwelir nad yw'r diwygiadau'n

newid polisi.  Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.